| | | | |
|---|---|---|---|
| | Beirniadaeth Cystadleuaeth 355 – Rhyddiaith Bl.8 | | |
| | Beirniad: Teleri Haf | | |
| | | | |
| | **FFUGENW** | **ADBORTH** | **SAFLE** |
| 1 | Barlwyd (Madi Hyde) | Llongyfarchiadau am ysgrifennu cynnil a choeth, llawn trosiadau a chyffelybiaethau er mwyn dod â'r profiad o fwlio yn fyw.<br>Dal ati i ysgrifennu! | 3ydd |
| 2 | | Dyddiaduron gafaelgar gyda defnydd da o ferfau a chwestiynau. Mae'r diwedd hudol yn ychwanegu synnwyr o obaith a dychymyg. Angen gwirio treigladau i sicrhau bod y gwaith yn llifo. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 3 | Blodyn | Portread annwyl o Mam yn llawn ansoddeiriau, idiomau a chyffelybiaethau. Gafael gadarn hefyd ar ramadeg. Byddai stori fach neu sbarc o hiwmor yn gwneud y portread yn fwy byw a difyr i'w ddarllen. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 4 | Blodyn | Ymson milwr teimladwy. Defnydd da o nodweddion arddull. Angen gwirio treigladau i sicrhau bod y gwaith yn llifo a rhoi mwy o sylw i'r | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | synhwyrau.  Dal ati i ysgrifennu! | |
| 5 | Bob Jeffery | Stori gyffrous wedi'i seilio ar Chwedl Branwen. Mae'r disgrifiadau'n dda, yn enwedig o Bendigeidfran, ac mae'r defnydd o ddeialog yn dod â'r stori yn fyw. Yr iaith hefyd yn raenus. Byddai ychwanegu ychydig o deimladau'r cymeriadau yn helpu i wneud y digwyddiadau'n fwy teimladwy. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 6 | Bobi Rhys | Stori ddifyr sy'n cyfuno cymeriadau hanesyddol a gwyddonol eiconig mewn sefyllfa ddychmygus wrth iddynt ddod o hyd i driniaeth i ganser ar y blaned Mawrth.  Efallai bod y stori'n symud yn rhy gyflym a bod angen rhoi mwy o sylw i nodweddion arddull. Iaith raenus. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 7 | BR | Dyddiadur Capten Perffaith - arwr sydd wedi diflasu ar achub cathod o goed ac yn siomedig bod y byd mor heddychlon! Syniad gwreiddiol a defnydd da o ferfau cryno ac ansoddeiriau. Angen darllen dros y gwaith yn fwy | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gofalus i gael gwared ar gystrawennau gwallus. Dal ati i ysgrifennu! | |
| 8 | **Bryndreinog** | Stori llawn cyffro wrth i blentyn gael ei achub o'r môr. Llawer o ansoddeiriau ac idiomau yn dod â'r cyfan yn fyw a defnydd da o ddeialog ac elipsau. Ychydig o lithriadau iaith. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 9 | Cenhinen Bedr | Stori llawn cyffro am geisio dal awyren i America. Defnydd da o gwestiynau, ansoddeiriau, deialog ac elipsau i ddod â'r stori'n fyw. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 10 | Cenin Pedr | Darn byr a chynnil yn esbonio beth yw ffrind. Gafael gadarn ar ramadeg ac mae defnydd hyderus o ansoddeiriau, gwrthgyferbynnu a rhestru. Bechod nad yw'r awdur wedi ymhelaethu ar y ffrind gan fod ganddo ddawn ysgrifennu amlwg. | 0 |
| 11 | Clark Kent | Stori llawn cyffro am Twm sy'n arwain Cymru i fuddugoliaeth ym mhencampwriaeth Cwpan y Byd. Defnydd da o ansoddeiriau. Cofia ddarllen dros dy waith i atalnodi | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a pharagraffu. Dal at i ysgrifennu! | |
| 12 | Daffodil | Stori deimladwy, llawn disgrifiadau da, am ddyn yn colli ei goes mewn damwain car. Y diwedd angen mwy o sylw ond dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 13 | Draig Goch | Llongyfarchiadau am greu stori arbennig sy'n llawn nodweddion arddull – berfau effeithiol, rhestru, trosiadau a chyffelybiaethau. Er bod yr arddull yn flodeuog, mae symlrwydd cynnes yn y disgrifio hefyd sy'n creu perthynas agos rhwng y darllenydd a'r prif gymeriad. Ceir gafael gadarn ar iaith. Mae dyfodol disglair i'r awdur yma! | 1af |
| 14 | Elenydd | Disgrifiad annwyl o Mam a stori hynod ddoniol am y cyw iâr. Angen mwy o gig ar yr asgwrn i ddod i adnabod Mam yn well. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 15 | Elis | Portread o Hedd Wyn sy'n llawn ffeithiau difyr – piti nad oes mwy o ddisgrifiadau. Dal ati i ysgrifennu | 0 |
| 16 | EP | Hanes y dywysoges Gwenllian sy'n llawn ffeithiau difyr – piti nad oes mwy o ddisgrifiadau er mwyn dod â'r | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hanes yn fyw. Dal ati i ysgrifennu | |
| 17 | Heulwen Haf | Stori ddifyr sy'n rhoi gogwydd ffres ar fwlio wrth i ni gydymdeimlo â'r bwli ar ddiwedd y stori. Defnydd arbennig o nodweddion arddull hefyd. Dal ati i ysgrifennu. | 0 |
| 18 | Llais y Llan | Disgrifiad difyr o beth ydy arwr. Y paragraff agoriadol yn effeithiol iawn. Cofia ddarllen dros dy waith i gywiro gwallau treiglo a sillafu. Dal ati i ysgrifennu. | 0 |
| 19 | Llygad y Dydd | Stori ddifyr, llawn nodweddion arddull, am ddamwain mewn pwll nofio. Angen sicrhau bod amser y ferf yn gyson drwy'r stori. Ond dal ati i ysgrifennu – mae gen ti ddawn, yn bendant! | 0 |
| 20 | Macbeth | Stori llawn cyffro wrth i darw dur daro yn erbyn traphont Maesycwmer. Iaith raenus a defnydd da o ansoddeiriau. Byddai cynnwys rhagor o nodweddion arddull wedi dod â'r stori'n fyw. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 21 | Melyn | Stori ddifyr am daith Anti Nerys i Nepal. Deialog ffraeth a disgrifiadau arbennig. Hoffi'r | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hiwmor! Braidd gormod o ddeialog o bosib. Dal ati i ysgrifennu. | |
| 22 | Mimi | Stori ddirdynnol am dad yn marw o ganser a'r effaith ar ei deulu. Disgrifiadau gwych – yn enwedig yn y paragraffau agoriadol. Llongyfarchiadau ar ysgrifennu teimladwy a chredadwy. Mae dyfodol disglair o dy flaen! | 2il |
| 23 | Nawicram | Stori llawn cyffro a symbolaidd am y ddraig goch yn amddiffyn Cymru rhag y dyn eira drygionus! Syniad gwreiddiol gyda disgrifiadau bach da. Dal ati i ysgrifennu! | |
| 24 | Pam ddim? | Stori ryfeddol am filwr yn dianc o ryfel ac yn marw ar ei daith adref. Angen rhoi mwy o sylw i baragraffu a chael gwared ar fân gamgymeriadau. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 25 | Pel Porffor Penderfynnol | Disgrifiad ffeithiol o Mike Blake neu Taid sy'n cyfleu ei fywyd llawn cyffro yn ddifyr. Agoriad a chlo effeithiol hefyd. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 26 | Polyn Trydan | Cyfres o lythyrau annwyl rhwng dau ffrind wedi i un symud i'r Gogledd. Defnydd da o ansoddeiriau, | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | idiomau a chymhariaethau. Mân wallau iaith angen sylw. Dal ati i ysgrifennu! | |
| 27 | Rwbath | Paragraff difyr am y pêl-droediwr, Bryn Jones. Angen mwy o gig ar yr asgwrn a mwy o nodweddion arddull. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 28 | Sbigoglys | Stori ddirdynol am wastraff rhyfel wrth i un ffrind amddiffyn y llall ar faes y gad. Cyffyrddiadau cofiadwy e.e. Yn fan hyn roedd bwledi yn lle blodau, dynion ar y llawr yn lle defaid a chanonau enfawr yn lle coed. Mae gen ti ddawn ysgrifennu felly dal ati! | 0 |
| 29 | | | |
| 30 | Tabby | Stori gynnil am ferch yn achub bachgen bach mewn storm. Defnydd arbennig o nodweddion arddull. Efallai bod angen mwy o gig ar yr asgwrn er mwyn dod i adnabod y cymeriadau yn well. Dal ati i ysgrifennu. Mae gen ti bendant ddawn i ddal sylw'r darllenwyr. | 0 |
| 31 | Wali Tomos | Wir wedi mwynhau'r stori hon – mor wreiddiol ac annwyl. Neges bwysig ynddi wrth | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i’r falwen araf achub y dydd! Potensial am lyfr stori-a-llun i blant yma! | |
| 32 | Wisgars | Paragraff difyr am y cae rygbi. Hoff iawn o’r ymadrodd ‘y dyfarnwr dan din’! Mae yma ddisgrifiadau bach da ond angen mwy o gig ar yr asgwrn. Dal ati i ysgrifennu! | 0 |
| 33 | Y Bradwr | Stori annwyl am dad a merch yn symud tŷ – y nerfusrwyd a’r dathlu ar y diwedd yn wrthgyferbyniad effeithiol. Wedi mwynhau darllen dy waith - dal ati i ysgrifennu! | 0 |

1af: Draig Goch

2il: Mimi

3ydd: Barlwyd

**<u>Y feirniadaeth</u>**

Ymgeisiodd 32 yn y gystadleuaeth hon a chafwyd amrywiaeth o ffurfiau – disgrifiadau, portreadau, dyddiaduron, ymsonau, llythyrau, straeon byrion a darnau mwy ffeithiol hefyd.  Cafwyd sawl math o arwyr – dad, mam, modryb, meddyg, ffrind, arwyr chwaraeon… a hyd yn oed malwen! Difyr hefyd oedd gweld mai bwlio a rhyfel oedd prif themâu’r gwaith a ddaeth i law.

Teimlaf fod saith ymgeisydd yn disgleirio yn y gystadleuaeth – **Barlwyd**, **Bob Jeffery**, **Draig Goch**, **Macbeth**, **Melyn**, **Mimi** a **Tabby**. Roedd eu hiaith yn raenus a rhaid canmol eu gallu i blethu nodweddion arddull i’r gwaith. Synnais pa mor fedrus oedden nhw’n bathu trosiadau a chyffelybiaethau, yn amrywio hyd eu brawddegau, ac yn rhestru ansoddeiriau. Un sylw bach i gnoi cil drosto ar gyfer y dyfodol – weithiau mae gormod o ddeialog yn gallu torri ar lif y stori!

Ar ôl dipyn o grafu pen, yn dod i’r brig eleni mae **Draig Goch**. Dyma stori gofiadwy am fachgen sy’n symud ardal ac yn cael ei fwlio yn ei ysgol newydd. Caiff ei hiraeth ei gyfleu drwy ferfau effeithiol, trosiadau a chyffelybiaethau byw.  Er bod yr arddull yn lliwgar, mae symlrwydd cynnes yn y disgrifio sy’n creu agosatrwydd rhwng y prif gymeriad a’r darllenwyr. Llwyddir i ennyn ein cydymdeimlad wrth i

“droed lechwraidd lithro” o’i flaen ac wrth iddo gael ei “[g]uro yn ddi-drugaredd mewn sgwâr bocsio a neb yn canu’r gloch i fi gael dod oddi yno”.   Mae dyfodol disglair i’r awdur yma yn sicr. Llongyfarchiadau mawr!

Yn ail yn y gystadleuaeth mae **Mimi**. Llwyddodd i ysgrifennu stori ddirdynnol am dad yn marw o ganser a’r effaith ar ei deulu. Ceir disgrifiadau gwych – yn enwedig yn y paragraffau agoriadol wrth i Anwen geisio dod i delerau â’r sefyllfa: “a’r holl feddyliau hyn yn fy mhen i, ac yn fy mhen i yn unig tra bod ffys a ffair bywyd yn mynd ymlaen o’n hamgylch ym mhobman. A fy nheulu yn esgus byw.” Llongyfarchiadau ar ysgrifennu teimladwy a chredadwy. Mae dawn ysgrifennu amlwg gennyt ti!

Yn drydydd o drwch blewyn mae **Barlwyd**. Er mai darn eithaf byr a gyflwynodd yr ymgeisydd yma, roedd pob gair yn hawlio ei le.  Bwlio eto oedd y testun a chafwyd trosiadau gwreiddiol megis “gwnïo celwyddau tu ôl fy nghefn” a “fy ngeiriau yn syrthio’n farw”. Llongyfarchiadau am ysgrifennu cynnil a choeth.

Pleser oedd darllen pob ymgais a theimlaf yn dawel fy meddwl bod dyfodol rhyddiaith Gymraeg yn gwbl ddiogel yn nwylo’r ifanc. Diolch i chi gyd am gystadlu ac i’r athrawon a’r rhieni sy’n meithrin eich doniau.